# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Llanddoged**

**Ysgol Gynradd Llanddoged**
**Llanddoged**
**Llanrwst**
**LL26 0BJ**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/11/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Ynglŷn âCylch Meithrin Llanddoged

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarpeir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Person Cofrestredig | Gareth Davies |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Good** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Adequate** |
| **Yr Amgylchedd** | **Good** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Adequate** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn hyderus i rannu eu barn. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r staff sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac yn gallu gwneud dewisiadau am sut i dreulio eu hamser.

Mae'r staff yn ymwybodol o’r rhan fwyaf o’u cyfrifoldebau o ran cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad gyda nhw mewn modd cynnes a chyfeillgar. Maent yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn eu canmol am eu cyflawniadau yn effeithiol. Mae'r staff yn cynllunio profiadau diddorol a difyr sydd yn hybu a chefnogi datblygiad y plant.

Mae'r safle, â’r amgylchedd yn groesawgar ac yn ddiogel i’r plant. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da, ac yn darparu cyfleoedd i’r plant ddysgu a datblygu eu sgiliau.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad.

| **Llesiant** | **Good** |
|---|---|

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maent yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig, ac yn datblygu eu hannibyniaeth yn dda.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mwynhau sgwrsio gyda'r staff a'u ffrindiau. Er enghraifft siaradodd plentyn am amser pan oedd wedi bod yn bwydo'r adar yn y cae, a dros amser byrbryd roedd y plant yn sgwrsio'n frwdfrydig am eu hoff a'u cas fwydydd. Roedd plant yn hyderus i ddod atom i siarad am yr hyn oeddynt yn hoffi wneud yn y lleoliad. Er enghraifft daeth plentyn i ddangos teganau o'r gornel adeiladu, yn awyddus i ddweud wrthym sut oedd am ddefnyddio'r teganau.

Mae'r plant yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol. Er enghraifft, wrth gyrraedd yn y bore, roeddynt yn mynd yn syth i gadw eu côt a'u bag mewn cornel bwrpasol, a chyn amser byrbryd roeddynt yn gwybod i fynd i olchi eu dwylo. Maent yn teimlo'n gyfforddus i fynd at y staff am help neu gysur.  Er enghraifft gofynnodd plentyn i gael gwneud llun, a chafodd gymorth yn syth gan y staff i estyn papur a deunyddiau.

Mae'r plant yn rhannu adnoddau ac yn chwarae ymysg ei gilydd yn dda. Maent yn hapus i sgwrsio â'r staff am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn awyddus i'w cynnwys yn eu chwarae. Er enghraifft aeth rhai o'r plant ati i greu den, ac roeddynt yn awyddus i'r staff ymuno yn y weithgaredd. Llwyddodd y plant, drwy weithio gyda'i gilydd, a gyda cymorth y staff i greu den gyda blanced a phegiau, a chawsant lawer o hwyl yn chware gyda torsh yn y tywyllwch oeddynt wedi greu.

Mae'r plant yn cael amrediad dda o brofiadau i ddatblygu, dysgu a meithrin eu sgiliau annibyniaeth. Er enghraifft, mae arferiad dyddiol o ddewis plentyn yn helpwr heddiw. Roedd y plentyn hwn yn mwynhau ac yn cymryd balchder o gyfri faint o'i ffrindiau oedd yn y cylch, a gosod y bwrdd gyda phlatiau a mygiau ar gyfer byrbryd. Mae plant yn cael eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, megis tacluso ar ddiwedd gweithgareddau, golchi eu dwylo, a gwisgo eu cotiau. Maent yn cael cyfleon i dreulio amser yn yr awyr agored, ac yn mwynhau teithiau cerdded rheolaidd i barc lleol, ac i fferm lleol i nol wyau.

## Gofal a Datblygiad — Adequate

Mae'r staff yn frwdfrydig ac yn ymateb i ofynion y plant yn dda ar y cyfan. Mae perthynas hyfryd wedi meithrin rhyngddynt. Mae’r staff yn canmol plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau.

Mae’r staff yn deall eu cyfrifoldebau o ran cadw’r plant yn saff. Maent yn gyfarwydd â’r gweithdrefnau cywir i’w dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu am blentyn, ac maent wedi cwblhau’r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu plant. Mae ganddynt dystysgrif cymorth cyntaf priodol sy’n eu galluogi i roi triniaeth brys os oes angen. Maent yn cadw cofnod priodol o ddamweiniau, gyda’r rhieni’n arwyddo’r cofnod hwn. Cynhelir ymarferion tân rheolaidd a chofnodir y canlyniadau.

Mae’r staff yn hyrwyddo arferion iach yn dda ar y cyfan. Maent yn darparu cyfleon i’r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol drwy eu hannog i chwarae allan yn yr awyr iach, ac yn sicrhau bod cyfleon diddorol i wneud hyn yn rheolaidd. Mae’r staff yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau a diodydd iach. Fodd bynnag doedd dim darpariaeth i’r plant allu helpu eu hunain i ddŵr fel y mynnent, ac roedd yn rhaid i’r plant aros tan amser byrbryd i gael diod er eu bod wedi gofyn am ddiod yn gynharach yn y bore. Mae’r staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo gyda dŵr a sebon sydd yn helpu i ddatblygu eu sgiliau hylendid personol mewn modd cadarnhaol.

Mae’r staff wedi meithrin perthynas bositif gyda’r plant. Maent yn hybu rhyngweithio cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn trin y plant â pharch. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn adnabod eu hoffterau. Er enghraifft roedd llawer o sgyrsiau rhwng y staff a’r plant am eu teuluoedd a’u diddordebau. Mae gan y staff sgiliau a strategaethau positif i ddelio gydag ymddygiad diangen, a gwelsom eu bod yn llwyddo ailgyfeirio a tynnu sylw’r plant mewn modd di ffwdan pan oedd angen.

Mae’r staff yn trefnu ystod o weithgareddau diddorol er mwyn rhoi cymorth i blant ddatblygu drwy chwarae, a dysgu mewn modd cadarnhaol. Fodd bynnag does dim cofnod o’u datblygiad yn cael eu gwblhau. Mae’r staff yn rhannu gwybodaeth gyda’r rhieni ynglŷn â datblygiad y plant drwy negeseuon preifat, trafodaethau ar lafar ar ddiwedd y dydd a thrwy dudalen gaeedig ar gyfryngau cymdeithasol.

| Yr Amgylchedd | Good |
|---|---|

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd gartrefol, glân a diogel lle y gall plant chwarae a dysgu'n briodol. Maent yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol gan nodi'r peryglon posibl i blant, a pha fesurau sydd ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag nid ydynt pob amser yn adlewyrchiad clir o'r lleoliad a'r gweithgareddau y mae plant yn cymryd rhan ynddynt.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd lân a diogel. Mae system addas i reoli mynediad at yr adeilad a gofynnir i ymwelwyr gofnodi eu presenoldeb. Mae cofrestrau dyddiol yn cofnodi presenoldeb y plant a'r staff. Caiff gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer yr adeilad a chyfarpar eu trefnu gan yr ysgol, sy'n gyfrifol am yr adeilad. Mae asesiadau risg cyffredinol yn cael eu cwblhau, ond nid oes asesiadau risg uniongyrchol ar gyfer tripiau allan o'r lleoliad. Mae'r yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn gyfredol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd gartrefol a chroesawgar i'r plant, gyda dodrefn, teganau ac adnoddau sy'n addas i'w hoedran a'u datblygiad. Mae cynllun yr ystafell yn hyrwyddo annibyniaeth y plant, ac yn eu galluogi i symud o gwmpas yn rhydd a gwneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae nifer o esiamplau o waith y plant yn cael eu harddangos ar y waliau, sy'n creu ymdeimlad o berthyn. Caiff yr holl ardaloedd eu cynnal a'u cadw'n briodol ac maent yn groesawgar i'r plant. Mae gan y plant fynediad i ddwy ardal awyr agored. Maent yn chwarae ar iard yr ysgol, yn ogystal ag ardal benodedig yn y cae lle y cant gyfle i ddatblygu eu dychymyg ac archwilio deunyddiau naturiol trwy chwarae mewn pabell, bwydo'r adar a garddio.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Adequate**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gan blant ganlyniadau llesiant da. Mae ganddynt wybodaeth briodol am eu cyfrifoldebau rheoleiddiol ond mae angen datblygu rhai meysydd er mwyn bodloni'r rheoliadau.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, sy'n golygu bod rhieni yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus o ran addasrwydd y lleoliad i ddiwallu eu hanghenion hwy ac anghenion eu plant. Mae polisïau'r lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn delio â chwynion yn unol â pholisi'r lleoliad bob amser, gan nad ydynt yn cadw cofnodion o gyfarfodydd neu gamau a gymerir i ymateb i gwynion.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn casglu adborth gan rieni a phlant. Mae sylwadau gan rieni a phlant wedi cael eu casglu a'u cynnwys yn yr adroddiad adolygu ansawdd i ddangos beth mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a pha welliannau allai gael eu gwneud yn y dyfodol. Er enghraifft mae cynllun i brynu mwy o adnoddau ar gyfer yr ardal tu allan.

Mae gwiriadau datgelu a gwahardd a hyfforddiant perthnasol y bobl sy'n rhedeg a gweithio yn y lleoliad yn gyfredol. Mae ffeiliau plant yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol.

Mae ffeiliau staff yn cynnwys yr wybodaeth gywir, ond doedd dim ffeil i aelod o staff newydd ar ddiwrnod yr arolwg. Fodd bynnag yn dilyn yr ymweliad adolygu,  rydym wedi cael cadarnhad bod ffeil gyda'r wybodaeth gywir wedi ei chreu i'r aelod staff yma erbyn hyn.

Nid yw'r staff wedi bod yn derbyn sesiynau goruchwyliaeth ffurfiol, sydd yn golygu nad ydynt wedi cael cyfle penodol i adlewyrchu ar eu ymarfer, i dderbyn adborth ac arweiniad ac i adnabod meysydd datblygiad personol. Cyflwynwyd maes i'w wella ynghylch y mater hwn. Mae trefniadau i gynnal arfarniadau blynyddol cyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu'n dda â'u cymuned a'r ysgol gynradd. Buom yn siarad â rhieni a ddywedodd eu bod yn hapus iawn â'r gofal a ddarperir a'u bod yn gallu trafod unrhyw fater gyda'r staff. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Argymhellion er mwyn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Ychwanegwch R1. R2. ac ati a'r geiriad sydd ei angen â llaw. Nid rheoliadau yw'r rhain, ond safonau gofynnol cenedlaethol.

A1 Sicrhau bod dwr ffres ar gael i'r plant pob amser.

A2 Cadw cofnodion cywir o unrhyw gyfarfodydd a gynhelir mewn ymateb i gwynion, yn unol â pholisi'r lleoliad.

A3 Creu asesiadau risg sydd yn adlewyrchu'r safle a'r gweithgareddau y mae plant yn cymryd rhan ynddynt.

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | There were no records of staff having received any supervision meetings with leaders, and staff confirmed that they had not received any supervision. | Newydd |
| | Statement of Purpose: leaders have not ensured all the required information is included in the statement of purpose to ensure parents have all the information they need to make an informed choice about the child care service they require. | Cyflawnwyd |
| | Suitability of Workers: leaders have not ensured they have all the required information to ascertain the suitability of some staff. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/01/2023